



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Deall agweddau cyhoeddus at roi organau: Dadansoddiad o'r cyfryngau

Crynodeb o'r Ymchwil

Ymchwil cymdeithasol

Rhif: 67/2013

Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriadau cyhoeddus a phasio Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) ym mis Gorffennaf 2013, bydd y system 'caniatâd tybiedig' ar gyfer rhoi organau yn dod i rym yng Nghymru ar 1^{af} Rhagfyr 2015, yn dilyn ymgyrch gyfathrebu wedi'i thargedu gan Lywodraeth Cymru.

Comisiynwyd yr adroddiad ymchwil gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i ganfyddiadau Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau: Arolwg Llinell Sylfaen 2012 (Llywodraeth Cymru, 2012), a oedd wedi nodi gwahaniaethau rhanbarthol o ran gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth, ac agweddau at y ddeddfwriaeth newydd, nad oeddent yn cyfrif am wahaniaethau economaidd-gymdeithasol neu wahaniaethau demograffig.

- Cynhaliwyd dadansoddiad ôl-weithredol o gynnwys yr adroddiadau a gafwyd am y ddeddfwriaeth rhoi organau yn y cyfryngau yng Nghymru, yn ystod y cyfnod o fis Hydref 2011 i fis Ebrill 2013, yn cynnwys y misoedd hyn. Roedd y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio yn bennaf ar ffynonellau teledu a phapurau newydd yng Nghymru, a chynhaliwyd dadansoddiad archwiliadol hefyd o'r cyfryngau cymdeithasu. Yn ogystal â dadansoddi amllder negeseuon (cadarnhaol neu negyddol), hygyrdd y ffynonellau a chryfder dadleuon, cynhaliwyd dadansoddiad hefyd o'r prif themâu (e.e. themâu crefyddol, themâu gwleidyddol), a nodwyd o fewn y ffynonellau.
- Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau a gafwyd am y ddeddfwriaeth rhoi organau yn y cyfryngau yng Nghymru, ar y teledu ac mewn papurau newydd, wedi bod yn gytbwys ar y cyfan. Nid yw'r gwahaniaethau rhanbarthol yn y ffordd mae'r cyfryngau yn adrodd ar hyn, sydd yn bodoli, yn esbonio'r gwahaniaethau yn agweddau'r ymatebwyr i Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau: Arolwg Llinell Sylfaen 2012. I gloi, mae'r adroddiad hwn wedi dangos nad yw'r gwahaniaethau rhanbarthol ynglŷn â gwybodaeth am, ac agweddau at, y ddeddfwriaeth rhoi organau yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y ffordd mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno am ddeddfwriaeth rhoi organau ar draws y gwahanol fathau o gyfryngau yng Nghymru.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Canfyddiadau Allweddol

1. Dangosodd dadansoddiad o'r adroddiadau teledu Saesneg a Chymraeg a ddarllledwyd ar draws Cymru ar raglenni teledu cenedlaethol yn dangos agwedd fwy cadarnhaol na negyddol, gyda'r patrwm o adroddiadau yn gymharol debyg ar draws y ffynonellau Saesneg yn unig, Saesneg a Chymraeg, a Chymraeg yn unig. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r gwahaniaethau rhanbarthol sy'n bodoli ynglŷn â gwybodaeth am, ac agweddau at, ddeddfwriaeth rhoi organau yn bodoli oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd mae'r gorsafoedd teledu yng Nghymru yn cyfleu gwybodaeth am ddeddfwriaeth rhoi organau.
2. Y themâu a oedd yn gysylltiedig â materion gwleidyddol a materion ystadegol am iechyd oedd y prif themâu a nodwyd yn y ffynonellau teledu. Er bod y themâu'n amlwg yn yr eitemau cadarnhaol a negyddol, roedd mwy o themâu gwleidyddol

wedi'u rhestru mewn storïau negyddol ac roedd y themâu ystadegol am iechyd i'w canfod yn y storïau mwy cadarnhaol. Roedd yr adroddiadau teledu a ddadansoddwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos nifer uwch o storïau a oedd yn wrthrychol yn ffeithiol ynglŷn â'r ddeddfwriaeth rhoi organau, yn hytrach na themâu gwleidyddol, moesol neu themâu llawn emosiwn.

3. Cafwyd cymariaethau cymysg rhwng y dadansoddiad o'r papurau newydd ac Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau: Arolwg Llinell Sylfaen 2012. Nodwyd cymysgedd o eitemau cadarnhaol a negyddol yn y Western Mail (a oedd yn cynrychioli ychydig o dan hanner yr eitemau a ddadansoddwyd) ac mewn papurau newydd rhanbarthol yng Ngogledd Cymru. Yn groes i hyn, nodwyd cyfran uwch o adroddiadau cadarnhaol ym mhapurau newydd Bae Abertawe a Chanolbarth a Gorllewin

Cymru, a chyfran uwch o adroddiadau negyddol yn rhanbarth Caerdydd a De-ddwyrain Cymru. Roedd y themâu cadarnhaol yn adlewyrchu gwybodaeth emosiynol, ystadegol a gwleidyddol, ac roedd y themâu negyddol yn adlewyrchu themâu gwleidyddol, moesegol a chrefyddol.

4. Roedd y nifer uwch na'r cyfartaledd o lythyrau a oedd wedi'u cyhoeddi gan ddarllenwyr yn y Western Mail ac mewn papurau newydd yn rhanbarth Caerdydd a De-ddwyrain Cymru yn cynrychioli cyfran uchel o eitemau negyddol yn y data hwn. Roedd llythyrau'r darllenwyr yn adlewyrchu themâu moesegol yn bennaf, ac i lai o raddau, themâu gwleidyddol a chrefyddol.
5. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau am y ddeddfwriaeth rhoi organau yn y cyfryngau yng Nghymru, ar y teledu ac mewn papurau newydd wedi bod yn gytbwys

ar y cyfan, gyda rhai eithriadau rhanbarthol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn esbonio agweddau'r ymatebwyr i Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau: Arolwg Llinell Sylfaen 2012. I gloi, nid yw'n ymddangos bod gwahaniaethau rhanbarthol o ran gwybodaeth am, ac agweddau at, y ddeddfwriaeth rhoi organau yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y ffordd mae gwybodaeth am y ddeddfwriaeth rhoi organau wedi'i chyflwyno ar draws y cyfryngau gwahanol yng Nghymru.

Awduron: Paul B. Hutchings, Paul M. Grey, Sara J. Manchipp a Ceri Phelps

Ysgol Seicoleg a Chwrsela,
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi
Sant, Abertawe

ISBN 978-1-4734-0490-8